# Adsefydlu Affganiaid
# Cwestiynau Cyffredin

Sefydlwyd Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru (y Bartneriaeth) 2001 a chaiff ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i hwyluso arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydgysylltu mewn perthynas ag ymfudo. Cynhelir y Bartneriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adlewyrchu ei rôl ledled Cymru gyfan mewn perthynas ag ymfudo.

Mae'r Cydlynydd Adsefydlu Ffoaduriaid ym Mhartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru yn arwain ar gydgysylltu cynlluniau adsefydlu Llywodraeth y DU a Nawdd Cymunedol ar draws Cymru, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i'r Swyddfa Gartref, y 22 o gynghorau yng Nghymru, y sector gwirfoddol a chymunedol a phartneriaid eraill. Ym Mehefin 2019 fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai cynllun cyfunol newydd sef Cynllun Adsefydlu'r DU yn disodli rhaglenni adsefydlu eraill a oedd yn bodoli o fis Ebrill 2020. Nod y cynllun newydd fyddai adsefydlu tua 5,000 o ffoaduriaid bob blwyddyn. Cafodd cyflwyno Cynllun Adsefydlu'r DU ei ohirio o

## Beth yw Cynlluniau Adsefydlu'r DU?

ganlyniad i bandemig y coronafeirws.
Ers 1 Mawrth 2025 mae Rhaglen Adsefydlu Affganiaid yn uno'r cynlluniau adsefydlu Affganiaid presennol gyda'i gilydd i wella effeithlonrwydd, gwerth am arian a chanlyniadau ar draws Adsefydlu Affganiaid. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dod â'r cynlluniau adsefydlu dinasyddion Affganiaid y DU i ben yn y pen draw.
Mae'r cynlluniau presennol fydd yn cael eu cyfuno o dan y Rhaglen Adsefydlu Affganiaid yn cynnwys:

1. Y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid. Mae hwn ar gyfer dinasyddion Affganaidd sydd wedi gweithio ar gyfer neu gyda Llywodraeth y DU yn Affganistan mewn rolau diamddiffyn neu ystyrlon a gall gynnwys cynnig i adleoli i'r DU ar gyfer y rhai a bennir yn gymwys gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac a bennir yn addas i'w hadleoli gan y Swyddfa Gartref.
2. Y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan. Mae hwn yn gynllun adsefydlu sy'n seiliedig ar atgyfeiriad sy'n blaenoriaethu pobl ddiamddiffyn a'r rhai sydd wedi cynorthwyo gydag ymdrechion y DU yn Affganistan.

Mae gan bawb sy'n cyrraedd ganiatâd amhenodol i aros fel y cymeradwywyd gan Lywodraeth y DU. Mae caniatâd amhenodol i aros yn golygu bod y DU yn awr yn gartref parhaol i'r teuluoedd hyn a'u bod yn cael eu hystyried fel preswylwyr sefydlog yn y DU, a bydd ganddynt hawl i arian cyhoeddus, cyfleoedd cyflogaeth ac yn gallu gwneud cais am dai yn y sector rhentu preifat.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/guidance/afghan-resettlement-programme

**Ceisiadau'r Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid**

- Bydd holl geisiadau'r Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a dderbynnir cyn i'r cynllun ddod i ben yn cael eu prosesu, ond ni fydd Llywodraeth y DU yn derbyn ceisiadau newydd ar ôl y pwynt hwn. Bydd teulu agos - megis un priod a phlant dan 18 - y rhai hynny a ystyrir yn gymwys yn parhau i gael eu hystyried i'w hadleoli'n awtomatig. Bydd ganddynt hefyd 30 diwrnod o dderbyn cynnig y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid i wneud cais i adleoli unrhyw aelodau ychwanegol o'r teulu i'r DU.

- Nid oes angen i'r rhai hynny sydd eisoes wedi gwneud cais i adsefydlu i'r DU wneud unrhyw beth a dylent aros i glywed gan eu gweithiwr achos. Ni fydd cysylltu â Llywodraeth y DU yn cyflymu'r broses.

- Mae rhai ceisiadau'n gymhleth iawn, a gall gymryd peth amser i sicrhau bod y rhai hynny sy'n gymwys yn cael eu hadnabod a'u hadleoli'n gyflym unwaith y cadarnheir cymhwysedd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wneud a chyfathrebu penderfyniadau ar gymhwysedd cyn gynted â phosibl.

**Llwybr Ymateb Affganistan (Afghanistan Response Route) - (wedi dod i ben)**

Crëwyd hwn gan y llywodraeth flaenorol mewn ymateb i ddigwyddiad data a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2022 ("y digwyddiad data"). Roedd yn darparu cyfle i rai unigolion gael eu hystyried ar gyfer cymhwysedd i adleoli i'r DU. Roedd hefyd yn galluogi unigolion cymwys i wneud cais i'w teulu agos / aelodau ychwanegol o'r teulu adleoli i'r DU.

**Cymhwysedd**
Roedd gan y Llwybr Ymateb Affganistan broses 2 gam:

- Cam Cymhwysedd: a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.
- Cam Cadarnhau Mynediad: a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref.

Er ei fod bellach wedi dod i ben, bydd y cam cymhwysedd ar gyfer aelodau o'r teulu a'r cam cadarnhau mynediad ar gyfer pawb yn aros ar agor i unigolion sydd wedi derbyn llythyr gwahoddiad cyn 4 Gorffennaf 2025.

Mae'r holl unigolion sy'n cael eu hadleoli o dan y Llwybr Ymateb Affganistan yn destun gwiriadau diogelwch llym, yn cynnwys gwiriadau diogelwch cenedlaethol, cyn dod i'r DU.

Llwybr Ymateb Affganistan - GOV.UK

## Llety dros dro

- Mae pawb sy'n cyrraedd fel rhan o'r **Rhaglen Adsefydlu Affganiaid** yn cael cynnig llety dros dro am hyd at 9 mis. Bwriedir i hyn roi amser i deuluoedd addasu i fywyd yn y DU, gan feithrin diwylliant o fyw'n annibynnol, heb ddibyniaeth neu ysgwyddo costau gormodol.

- Mae llety dros dro yn rhan allweddol o'r cynnig cymorth i'r Affganiaid sy'n ein cyrraedd, gan ganiatáu iddynt gyfeirio eu hunain a rhoi eu hunain ar y trywydd iawn ar gyfer llwyddiant yn eu bywydau newydd yn y DU.

- Bydd y llety dros dro yn parhau i fod yn gymysgedd o lety â gwasanaeth a gwestai ochr yn ochr â llai o ddefnydd o'r Ystâd Amddiffyn.  Lleolir y llety ar draws y wlad.

- Bydd safleoedd ar yr Ystâd Amddiffyn a ddefnyddiwyd fel llety dros dro yn cael eu dychwelyd i'w defnydd blaenorol maes o law, ac mae Llywodraeth y DU yn gweithio i leihau effaith y gwaith adsefydlu ar bersonél y Lluoedd Arfog, teuluoedd y Lluoedd Arfog ac allbynnau Amddiffyn allweddol.

## Llety sefydlog

- Bydd yr holl Affganiaid sy'n cyrraedd yn cael eu hannog i ganfod eu llety sefydlog eu hunain drwy 'Ganfod Eich Llwybr Eich Hun'.

- I gydnabod y pwysau ar y cyflenwad tai a'r heriau unigryw sy'n wynebu'r garfan hon, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo  i barhau i ariannu a chefnogi tai sefydlog i gefnogi oddeutu hanner y rhai a fydd yn ein cyrraedd, sydd anoddaf i'w lletya.

- Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyllid cyfalaf ychwanegol, nawdd cymunedol a rhywfaint o Lety Teulu'r Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn sicrhau bod llety sefydlog ar gael i gefnogi darpariaeth y Rhaglen Adsefydlu Affganiaid.

- Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y teuluoedd o Affganistan sydd wedi symud i lety sefydlog a byddant yn rhydd i aros yno hyd at ddiwedd eu tenantiaethau.

## Beth yw'r Cynllun Nawdd Cymunedol?

Mae'r Nawdd Cymunedol yn rhan o raglen adsefydlu UNHCR Llywodraeth y DU sy'n galluogi grwpiau cymunedol i groesawu a chefnogi teulu a adsefydlwyd yn uniongyrchol i'w cymuned leol. Mae wedi ei ddylunio i weithredu mewn

partneriaeth gyda chymunedau lleol ac mae'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ar gyfer teuluoedd a adsefydlwyd a'r rhai hynny sy'n eu cefnogi.

Mae ffoaduriaid sydd wedi eu hadsefydlu drwy Nawdd Cymunedol yn ychwanegol at y rhai hynny sydd wedi eu hadsefydlu i gynghorau drwy gynlluniau adsefydlu eraill.

Mae elusen RESET yn darparu cyngor a chefnogaeth gyda gofynion ymarferol ar gyfer grwpiau sydd eisiau cofrestru a dod yn noddwyr.

## Cymunedau ar gyfer Affganiaid

- Mae Cymunedau ar gyfer Affganiaid yn llwybr nawdd ar gyfer unigolion o Raglen Adsefydlu Affganiaid. Fel y nodwyd gan Weinidogion yn y Senedd, mae yna bellach un Rhaglen Adsefydlu Affganiaid ar gyfer yr holl Affganiaid cymwys sy'n cyrraedd y DU.

- Mae wedi'i ddylunio i ddarparu tai diogel a fforddiadwy yn gyflym, yn seiliedig ar fodel nawdd cymunedol, gan alluogi grwpiau cymunedol lleol i groesawu a chefnogi ffoaduriaid yn uniongyrchol yn eu cymunedau lleol. Felly, mae'n gweithredu'n wahanol i raglenni adsefydlu eraill. Rhennir y cyfrifoldeb i adsefydlu aelwydydd rhwng Llywodraeth EF, Prif Noddwyr, Grwpiau Nawdd a chynghorau. Felly bydd trefniadau nawdd llwyddiannus yn dibynnu ar ymgysylltiad cadarnhaol a pherthnasoedd cydweithio rhwng y grwpiau hyn.

- Mae gan Brif Noddwyr gyfrifoldeb cyffredinol am effeithiolrwydd y Grŵp Nawdd wrth gefnogi'r aelwyd dros gyfnod y cynllun a byddant yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r aelwyd a'r Grŵp Nawdd i wneud yn siŵr bod adsefydlu'n llwyddiannus. Byddant yn recriwtio, hyfforddi a chefnogi Grwpiau Nawdd drwy'r cynllun ac yn darparu cefnogaeth barhaus. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor; fodd bynnag, nhw fydd y cyswllt cyntaf os oes unrhyw broblemau neu heriau. Mae'r Prif Noddwyr yno i gefnogi'r Cyngor a'r Grŵp Nawdd i gytuno ar eu dull ar y cyd.

- Bydd Grwpiau Nawdd yn darparu llawer o'r cymorth o ddydd i ddydd ar draws 3 blynedd y cynllun. Maent yn gyfrifol am ganfod llety a chroesawu aelwyd yn ogystal â'u cefnogi i setlo yn eu cymuned newydd a dechrau byw bywydau annibynnol. Mae Grwpiau Nawdd yn cael eu cefnogi gan gyllid ond mae ganddynt hefyd y dewis i godi arian os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

- Bydd Cynghorau'n chwarae rhan allweddol o ran gweinyddu cyllid gan Lywodraeth EF i'r Grŵp Nawdd, gan ddarparu cymorth integreiddio tymor hwy a chyfrifoldebau statudol yn cynnwys digartrefedd, diogelu a darpariaeth gofal cymdeithasol. O fewn y canllawiau hyn, mae'r cynllun a'r cyllid wedi'u dylunio i

alluogi'r Cyngor i ymateb yn hyblyg i anghenion y teulu, a'r sefyllfa leol i gyflawni'r canlyniad cyffredinol. Bydd Cynghorau'n derbyn cyllid tariff er mwyn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Mae cam 2 **Cymunedau ar gyfer Affganiaid** yn ceisio derbyn 500 o aelwydydd Affganaidd (oddeutu 2,750 o unigolion) ar Raglen Adsefydlu Affganiaid erbyn diwedd Mawrth 2031. Y nod yw darparu'r hyn y mae aelwydydd eu hangen i integreiddio mewn cymdeithas a hyrwyddo cydlyniant rhwng gwesteion a'u cymunedau lleol er mwyn iddynt allu cyfranogi'n llawn mewn bywyd yn y DU.

**Pwrpas:** Darparu gwasanaeth drwy grwpiau gwirfoddol a chymunedol i ddarparu llety a chefnogaeth i Affganiaid sydd wedi cyrraedd drwy lwybr adsefydlu'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu dod i'r DU a setlo yma'n llwyddiannus.

**Cymhwysedd:** Sefydliadau Gwirfoddol, Cymunedol a Menter Gymdeithasol wedi'u lleoli yn y DU.

- **Cyllid sydd ar gael:**
- £4.145 miliwn ar gyfer Prif Noddwyr. Bydd y cyllid yn cael ei rannu ar draws blynyddoedd ariannol 2025/26 - 2030/31. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu i weinyddu'r prosiect.

- Hefyd, bydd cronfa costau ymlaen llaw ar gyfer pethau megis blaendaliadau a rhent ymlaen llaw i'r Prif Noddwr ei rheoli, a chronfa Grŵp Nawdd fisol a delir drwy eu Cyngor i helpu gyda chostau tai, yn ogystal â thariff fesul unigolyn sy'n cyrraedd a delir i Gyngor yr ardal y mae'r teulu yn setlo ynddi.

- Mae cyllid o £909 y pen ar gael i Grwpiau Nawdd ar gyfer costau ymlaen llaw yn cynnwys blaendaliadau, rhent y mis cyntaf a chostau cychwynnol eraill. Nid oes cyfyngiad ar faint aelwydydd ar gyfer cyllid. Bydd gofyn i Brif Noddwyr ddosbarthu'r arian hwn i Grwpiau Nawdd.

- Mae cyllid o £136 y pen bob mis ar gael am 3 blynedd ar gyfer costau misol parhaus, yn cynnwys cymorth gyda chostau rhent, er enghraifft. Nid oes cyfyngiad ar faint aelwydydd ar gyfer cyllid. Bydd hyn yn cael ei dalu drwy eu Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
https://www.gov.uk/government/publications/communities-for-afghans-project-dluhc-policy-update/communities-for-afghans-phase-2-supporting-information

## Sut mae pobl yn cael eu dewis ar gyfer adsefydlu?

Mae Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) yn nodi pobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o **niwed difrifol** yn y wlad lle maent wedi eu cofrestru, a hefyd yn eu mamwlad, o ganlyniad i **fygythiadau i'w bywyd, rhyddid neu ddiogelwch corfforol neu achosion difrifol o fynd yn groes i hawliau dynol**.

Caiff y risgiau hyn eu hasesu wrth ymateb i anghenion penodol unigolion a theuluoedd, gan ystyried y cyd-destun lleol, argaeledd amddiffyniad cyfreithiol a chorfforol, a hygyrchedd gwasanaethau perthnasol, y gobaith o ddychwelyd yn ddiogel i'w mamwlad a'r egwyddor o undod teuluol.

Fe all merched, dynion, genethod a bechgyn gael eu hystyried ar gyfer adsefydlu, yn ogystal ag unigolion o hunaniaeth rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol amrywiol, pobl sy'n byw gydag anabledd, unigolion heb wladwriaeth ac eraill yr asesir eu bod angen amddiffyniad rhyngwladol. Nid yw ffactorau fel cenedligrwydd, ethnigrwydd, barn wleidyddol, credoau crefyddol, addysg, profiad gwaith ac iaith yn berthnasol i p'un ai y bydd UNHCR yn ystyried pobl ar gyfer adsefydlu.

Nid yw adsefydlu yn hawl. Bydd yr UNHCR yn blaenoriaethu **yr achosion mwyaf brys ar gyfer atgyfeiriad i wlad sy'n adsefydlu**. Ni all ffoaduriaid ddewis y wlad y bydd UNHCR yn gofyn iddi ystyried eu hachos, er bod ganddynt yr hawl i benderfynu p'un ai a ydynt yn dymuno cael eu hadsefydlu ai peidio.

## Beth yw rôl y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo?

Mae'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo yn darparu cefnogaeth gydag adsefydlu a ddaw yn eang o dan bum maes:

1. **Hwyluso cenhadaeth ddethol a phrosesu fisa**
   Gall y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo ddarparu cefnogaeth o ran logisteg i awdurdodau'r gwladwriaethau sy'n adsefydlu, gan hwyluso eu cenhadaeth ddethol yn ogystal â'r gweithdrefnau dogfennau teithio a phrosesu fisa yn y gwledydd o lle caiff y ffoaduriaid eu hadsefydlu.

2. **Darparu asesiad iechyd cyn gadael**
   Mae asesiad iechyd cyn gadael y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo, yn ogystal â chymorth iechyd yn ystod y daith, i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion iechyd ffoaduriaid cyn iddynt adael, eu bod mewn cyflwr i deithio ac y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer derbyn gofal a pharhad gofal pan fo angen.

3. **Cynnal sesiynau cyfeiriadedd cyn gadael**

   Mae sesiynau cyfeiriadedd cyn gadael yn hollbwysig i fynd i'r afael ag agweddau integreiddio ar y cam cynharaf bosibl yn nhaith adsefydlu ffoadur.

Y nod yw helpu ffoaduriaid i ddatblygu sgiliau ymarferol ac agweddau sy'n cyfrannu at eu hintegreiddio'n gynnar yn y wlad sy'n eu derbyn.

4. **Darparu cymorth gydag integreiddio ar ôl cyrraedd**
Gall y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo hefyd ddarparu cefnogaeth gydag integreiddio ar ôl cyrraedd i ffoaduriaid sydd wedi eu hadsefydlu. Eu nod yw hwyluso integreiddio cynnar, mae enghreifftiau yn cynnwys sesiynau cyfeiriadedd ar ôl cyrraedd, darparu cefnogaeth uniongyrchol neu hwyluso gwell ymgysylltu gyda'r gymuned sy'n derbyn.

5. **Gweithredu rheoli symudiad a gweithrediadau teithio**
Er mwyn cynorthwyo ffoaduriaid sydd angen eu hadsefydlu mae'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo yn darparu cymorth cynhwysfawr gyda symud sy'n cynnwys cludiant o fewn y wlad ac yn rhyngwladol. Tra bod y rhan fwyaf o ffoaduriaid yn teithio gyda gwasanaeth awyr masnachol wedi'i drefnu, bydd angen trefniadau wedi eu teilwra ar weithrediadau penodol a'r defnydd o deithiau awyr siarter.

## Beth yw rôl cynghorau?

Mae pob cyngor ar hyd a lled Cymru wedi adsefydlu teuluoedd o ffoaduriaid hyd yma. Mae cyfranogiad cynghorau yn hanfodol i adsefydlu teuluoedd.

Yr agwedd gyntaf yw i'r cyngor sicrhau eiddo i'w gynnig i'r cynllun adsefydlu.

Mae'n rhaid iddynt ddodrefnu'r eiddo yn briodol a sicrhau fod bwyd ac offer yn cael eu darparu ar gyfer y teulu sy'n cyrraedd. Mae'r broses baru, a reolir gan Gydlynydd Adsefydlu Ffoaduriaid Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, yn sicrhau y derbynnir teuluoedd yn ffurfiol ar gyfer yr eiddo, gan gynnwys cydgysylltu gyda'r heddlu, iechyd a chydweithwyr addysg.

Ar ôl iddynt gyrraedd mae'n rhaid i'r cyngor, neu'r sefydliad cefnogi a gomisiynir gan y cyngor, ddarparu cyfeiriadedd yr eiddo ac offer a chael cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi gan y teulu.

Y diwrnod canlynol bydd y teulu yn cychwyn ar eu cefnogaeth integreiddio. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys cofrestru gyda gwasanaethau Meddyg Teulu, derbyniadau ysgol, cofrestru gyda deintyddion, cynorthwyo i sefydlu cyfleustodau a mynychu apwyntiad gyda'r Adran Waith a Phensiynau. Bydd cyfrifon banc hefyd yn cael eu sefydlu a darperir cyfeiriadedd yr ardal.

Caiff cefnogaeth ariannol ei darparu gan Lywodraeth y DU ar gyfer cefnogi teuluoedd am gyfnod o 3 blynedd ar gyfer Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a Chynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, a 5 mlynedd ar gyfer Cynllun Adsefydlu'r DU.

## Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?

Anfonwch e-bost at WSMPComms@wlga.gov.uk gan nodi 'ymholiad yn ymwneud ag adsefydlu ffoaduriaid' yn y llinell destun.